


# Bagloriaeth Cymru

Cliciwch ar y llun i wylio clip gan Gymwysterau Cymru ar Bagloriaeth Cymru



## Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol / Sylfaen



Dyfernir **Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol** ar radd **Llwyddo** pan fydd dysgwyr yn cyflawni **pob elfen** o'r olwyn ar radd **A\* i C**.

Dyfernir **Bagloriaeth Cymru Sylfaen** ar radd **Llwyddo** pan fydd dysgwyr yn cyflawni Llwyddo\* neu Llwyddo yn y Dystysgrif Her Sgiliau, ac **A\* i G** yn y cymwysterau eraill ar yr olwyn.

Mae 'Olwyn Bagloriaeth Cymru' yn dangos gallu a chymhwysedd sgiliau academiaidd dysgwr i gyd mewn un lle.

## Tystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol/Sylfaen?

Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau yn gymhwyster TGAU **annibynnol**. Gellir ei gyflawni a'i ddyfarnu ar ei ben ei hun, hyd yn oed heb y cymwysterau eraill sy'n rhan o Bagloriaeth Cymru. Elfenn uchaf yr olwyn Bagloriaeth Cymru yw'r Dystysgrif Her Sgiliau a gynlluniwyd i ddarparu cyfrwng i ddysgwyr 14-16 oed atgyfnerthu a datblygu sgiliau hanfodol a chyflogadwyedd. Bydd y cymhwyster yn helpu dysgwyr i baratoi ar gyfer y dyfodol drwy feithrin sgiliau, priodoleddau a mathau o ymddygiad a gaiff eu gwerthfawrogi gan addysgwyr ôl-16 a darpar gyflogwyr.

## Graddio'r Dystysgrif Her Sgiliau ar Iefel Genedlaethol/Sylfaen:

Tystysgrif Her Sgiliau Genedlaethol – Gradd TGAU **A\* i C**

Tystysgrif Her Sgiliau Sylfaen – **Llwyddo\*** neu **Llwyddo**

## Trosolwg o'r Dystysgrif Her Sgiliau Genedlaethol/Sylfaen

Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau yn cynnwys 4 cydran ac mae'n rhaid llwyddo'n y 4 i ennill y cymhwyster:

- Project Unigol (50%)
- Her Menter a Chyflogadwyedd (20%)
- Her Dinasyddiaeth Fyd-eang (15%)
- Her y Gymuned (15%)

Ar draws y 4 cydran hyn, asesir 7 sgil hanfodol a chyflogadwyedd:

Llythrennedd	Dangos sgiliau darllen, ysgrifennu, siarad a gwrando i gyfathrebu syniadau yn effeithiol ag eraill.
--------------	---

Rhifedd	Casglu, dehongli a chyflwyno data rhifiadol neu wybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau gan ddefnyddio technegau digidol.
---------	--

Llythrennedd Digidol	Deall a defnyddio technolegau digidol yn effeithiol at ddibenion gwahanol.
----------------------	--

Cynllunio a Threfnu	Rheoli eich hun, pobl eraill, adnoddau ac amgylchiadau i gyrraedd nod penodol.
---------------------	--

Meddwl yn Feirniadol  
a Datrys Problemau

Casglu gwybodaeth allweddol i adnabod safbwyntiau gwahanol a gwneud penderfyniadau i ddatrys problemau.

---

Creadigrwydd ac  
Arloesi

Addasu sgiliau a phriodoleddau personol i gyflawni targedau a osodwyd.

---

Effeithiolrwydd  
Personol

Addasu sgiliau a phriodoleddau personol i gyflawni targedau a osodwyd.

---

## **Ysgol Uwchradd Bodedern**

Bl 10 - Her Menter a Chyflogadwyedd, Her Dinasyddiaeth Fyd-eang a'r Her y Gymuned.

Bl 11 - Project Unigol.


## **Her y Gymuned Haf 2019**

Dyma rai o'r gweithgareddau a gafodd eu trefnu ar gyfer y disgyblion fel rhan o'u cyfranogiad cymunedol o 10 awr.

## Dogs Trust



Codi ymwybyddiaeth ymysg disgyblion cynradd ac uwchradd o'r pwysigrwydd o ofalu'n synhwyrol a chall am gi ac i brynu ci bach gan werthwr wedi'i achredu ac nid o fferm cŵn bach. Hefyd, mynd allan i'r gymuned leol (Morrison's, B&M, Parciau Penrhos a Gwledig Morglawdd Caergybi) i hysbysu'r cyhoedd o'r elusen ac o'r angen i lanhau ar ôl eu cŵn.



## Surfers Against Sewage



Gan fod sawl ymgyrch bellach i leihau'r defnydd o blastig penderfynwyd cefnogi'r elusen gadwraeth forol drwy llnau traeth, codi ymwybyddiaeth o waith yr elusen a chodi arian ar ei chyfer drwy olchi ceir staff yr ysgol.


## Gwella Cymdogaeth


Fel rhan o'r her, cafwyd y cyfle i ail-godi wal yng Ngwarchodfa Natur Mariandryys, godi sbwriel a pheintio ffens ym Mharc Gwledig Morglawdd Caergybi a fyddai'n gwella'r gymdogaeth ar Ynys Môn i'r brodorion ac i'r ymwelwyr.



### Her Menter a Chyflogadwyedd Tymor yr Hydref 2019

Penderfynwyd creu busnesau bach ar gyfer Ffair Nadolig gyda 20 o stondinau gwahanol yn y ddwy gampfa. Gyrrwyd yr holl elw (£1200) tuag at Teenage Cancer Trust. Cafwyd amrywiaeth o fusnesau - golchi ceir; coginio pitsas a chacennau di-ri; tynnu lluniau; lluniau mewn addurniadau Nadolig; taflu'r slepjan; plethi a glityr.





**Dolenni at fwy o wybodaeth:**

Llawlyfr y Disgybl - cliciwch [yma](#).

Pam astudio'r Dystysgrif Her Sgiliau (gan fyfyrwyr) - cliciwch [yma](#).

Pam astudio'r Dystysgrif Her Sgiliau (gan gyflogwyr) - cliciwch [yma](#).

Pa sgiliau fydd yn cael eu datblygu - cliciwch [yma](#).

Her Menter a Chyflogadwyedd - cliciwch [yma](#).

Her Dinasyddiaeth Fyd-Eang - cliciwch [yma](#).

Her y Gymuned - cliciwch [yma](#).